## Cynghrair Gweithwyr y Tir - Cydgysylltydd Aelodaeth, Recriwtio ac Ymgysylltu Cymru

**Oriau:** 2 diwrnod (16 awr) yr wythnos
**Hyd:** 1 flwyddyn
**Lleoliad:** Gweithio o bell gyda'r capasiti i deithio rheolaidd ar gyfer gwaith, digwyddiadau a chyfarfodydd yng Nghymru a Lloegr
**Tâ Cydnabyddiaeth:*** £11,648 cyflog blynyddol gros PAYE (£29,120 pro rata). Gyda chynnydd blynyddol o 1.5% yn amodol ar adolygiad. Cyfraniad pensiwn statudol a lwfans gwyliau
**Dyddiad Dechrau:** cyn gynted â phosibl ar ôl recriwtio.
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** dydd Llun, 2 Awst 2021
**Cyfnod cyfweld:** 4-17 Awst 2021
**Gwefan:** landworkersalliance.org.uk
**Mae gan yr LWA bolisi cydraddoldeb cyflog a strwythur talu safonol, gyda'r holl weithwyr yn cael eu talu ar yr un gyfradd.*

Mae Cynghrair Gweithwyr y Tir (LWA) yn undeb o ffermwyr, cynhyrchwyr, coedwigwyr a phobl sy'n gweithio ar y tir ledled y DU. Ein nod yw gwella bywoliaeth ein haelodau a chreu gwell system o fwyd a thir i bawb. Mae gennym weledigaeth o ddyfodol lle gall cynhyrchwyr weithio ag urddas i ennill bywoliaeth deg, a lle gall bawb gael mynediad at fwyd, tanwydd a ffibrau lleol, iachus a fforddiadwy - system fwyd a defnydd tir sy'n seiliedig ar agroecoleg a sofraniaeth bwyd, ac sy'n gwella cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydym yn sefydliad dynamig a bywiog sydd ar gychwyn cyfnod cyffrous o dwf. Dros y blynyddoedd nesaf anelwn i gynyddu ein haelodaeth yn sylweddol yn ogystal ag ehangu cefnogaeth a gwasanaethau i'n haelodau, ymestyn graddfa ein prosiectau a'n rhaglenni, a hyrwyddo ein safbwyntiau o ran llunio polisïau yn sylweddol a datblygu ein gallu llywodraethu mewnol a sefydliadol ar gyfer y cam twf uchelgeisiol hwn.

**<u>Dull Gweithredu:</u>**

Menter gydweithredol i aelodau yw Cynghrair Gweithwyr y Tir, a gynrychiolir gan Grŵp Cydgysylltu o gyfarwyddwyr sydd yn cael eu hethol gan yr aelodau hynny yn y Cyfarfod Cyffredinol blynyddol (AGM). Y Grŵp Cydgysylltu sy'n llywio gwaith strategol, ariannol, llywodraethu a gwleidyddol y sefydliad, ac mae hefyd yn gyfreithiol gyfrifol am reoli a gweithredu'r LWA. Mae'r staff yn gweithio yn unol ag egwyddorion menter gydweithredol ac ynghyd â chyfrifoldebau swyddi penodol, gall fod gofyn iddynt gymryd rhan mewn Cyfarfodydd Cyffredinol a gweithgorau fel rhan o'u horiau, neu amser ychwanegol â thâl os oes angen.

Nid oes Gan Gynghrair Gweithwyr y Tir swyddfa ganolog, ac mae ein staff yn gweithio o bell, ond

bydd yn ofynnol iddynt fynychu cyfarfodydd sy'n digwydd mewn lleoliadau amrywiol ledled y wlad. Telir costau teithio rhesymol yn ychwanegol at gyflog, fodd bynnag, mae gofyn bod gan yr ymgeiswyr y sgiliau hanfodol a'r hyder i weithio o bell fel rhan o dîm amrywiol, gyda gallu profedig i hunan-reoli a gweithio'n annibynnol. Rydym yn chwilio am rywun sydd wedi'i leoli yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i'n Polisi Cyfle Cyfartal ac rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y rôl hon sy'n teimlo fod ganddynt y profiad a'r sgiliau perthnasol.

**Trosolwg o'r rôl a swydd ddisgrifiad:**

Fel rhan o strategaeth twf LWA yn y pum mlynedd nesaf, rydym am ehangu aelodaeth o 1,200 i 3,000 o gynhyrchwyr, a chyrraedd 1,000 o gefnogwyr. Rydym hefyd eisiau cefnogi aelodau i ymwneud mwy â gwaith LWA, yn fwy cysylltiedig â'i gilydd yn eu sectorau, canghennau, rhanbarthau a gweithgorau. Bydd Cydgysylltydd Aelodaeth, Recriwtio ac Allgymorth y DU a benodwyd yn ddiweddar yn arwain ar y gwaith hwn.

Ar hyn o bryd mae gennym tua 200 o aelodau yng Nghymru, anelwn i gynyddu hyn i 500 o gynhyrchwyr a 150 o gefnogwyr. Rydym hefyd yn anelu i ehangu ein haelodaeth i bob sector ledled Cymru gyfan.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn edrych i recriwtio person i rôl Aelodaeth, Recriwtio ac Allgymorth i Gymru, swydd 2 niwrnod yr wythnos.

Rydym yn edrych am gyfathrebwr a hwylusydd hyderus a medrus, sy'n deall y materion a'r ddynameg gymhleth sy'n ymwneud â bwyd a ffermio yng Nghymru er mwyn datblygu a chyflwyno strategaethau ar gyfer recriwtio, allgymorth ac ymgysylltu ag aelodau.

Bydd hyblygrwydd a rhyddid o fewn y rôl i gyflawni cynllun gwaith a strategaeth greadigol i adeiladu, cynyddu a chryfhau aelodaeth LWA. Bydd y Cydgysylltydd yn arwain ar gyfraniadau'r LWA i'r Gynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru. Gall elfennau eraill o'u gwaith gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) ymgyrch cyfathrebu ac ymgysylltu, recriwtio mewn digwyddiadau, cydweithio gyda sefydliadau bwyd a ffermio eraill, yn ogystal â gweithio gydag aelodaeth LWA ledled Cymru ar lefel lleol a sectoraidd.

Bydd y Cydgysylltydd Aelodaeth, Recriwtio ac Ymgysylltu yn cyfarfod â Grwpiau Cydgysylltu Cymru a'r DU a staff yr LWA i ddatblygu cynigion a chyflawni cynllun gwaith y cytunwyd arno gyda thargedau a bennwyd gan y Grwpiau Cydgysylltu. Bydd y rôl hon yn gweithio ochr yn ochr â Chydgysylltydd polisi Cymru a chydgysylltydd aelodaeth, recriwtio ac allgymorth y DU, yn gweithio ar ddigwyddiadau, gwerthiant, ymgyrchu a lobïo, y cyfryngau a chyfathrebu, rhaglenni hyfforddi a chyfnewid, symudiadau a gwasanaethau aelodau. Yn ychwanegol bydd y rôl hefyd yn cydweithio ag aelodau LWA i drefnu a symudiadau gwirfoddolwyr ledled Cymru. Mae'r rolau'n rhan o'r tîm staff 'aelodaeth'.

Cyfrifoldebau penodol ac allbynnau'r rôl hon fydd:

**Recriwtio Aelodau**

- Cydlynu, datblygu a chyflawni strategaeth greadigol ac ymgyrchi i gynyddu ac amrywio

aelodaeth LWA yng Nghymru i 500+ o gynhyrchwyr a 150+o gefnogwyr ar draws pob sector dros gyfnod o bum mlynedd

**Allgymorth Aelodaeth**

- Gweithio gydag aelodaeth LWA i ddatblygu a gwella sianeli sy'n bodoli'n barod o ran cyfathrebu, fforymau a sgiliau ar gyfer trefniadaeth leol ac adrannol.
- Cefnogi aelodau LWA a drefnir mewn canghennau, rhanbarthau, sectorau a gweithgorau gyda datrys problemau, cyfeirio, cymorth technegol a threfnu.
- Arwain ar gyfraniad LWA i Gynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru.
- Gweithio'n effeithiol ac mewn cydweithrediad fel rhan o dîm deinamig gyda LWA Cymru a Grwpiau Cydgysylltu'r DU, staff ac aelodau.

**Manyleb Person**:

Bydd gan yr ymgeisydd addas y sgiliau a'r profiadau canlynol:

- Profiad o drefnu ar lawr gwlad (yng Nghymru yn ddelfrydol)
- Dealltwriaeth gadarn o hanes, gwleidyddol ac ymarferion amaethyddiaeth yng Nghymru, a'r hyn sy'n gosod LWA ar wahân i sefydliadau aelodaeth eraill yn y maes.
- Gallu i gyfathrebu'n hyderus, sensitif ac i ddwyn perswâd yn y Gymraeg a'r Saesneg ar faterion cymhleth yn ymwneud â sofraniaeth bwyd, agroecoleg a chyfiawnder bwyd i ddarpar aelodau a chefnogwyr.
- Dull creadigol ac arloesol o recriwtio ac ymgysylltu aelodaeth gyda'r gallu i ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli ystod eang o aelodau posibl am fanteision ymuno â'r LWA gan ddefnyddio strategaethau amrywiol, offer cyfathrebu a dulliau ymgysylltu.
- Sgiliau cryf a hyder wrth weithio fel rhan o dîm amrywiol gyda gallu profedig i hunan-reoli, bod yn drefnus a gweithio'n annibynnol.
- Gallu i ddatblygu cynlluniau gwaith, monitro cynnydd ac adrodd ar waith i Grwpiau Cydgysylltu a staff.
- Profiad a sgiliau o weithio'n dda mewn partneriaeth gyda sefydliadau bwyd, ffermio, defnyddwyr tir eraill i ddatblygu strategaethau unol ac ymgyrchoedd i recriwtio aelodaeth a buddiannau ar y cyd..
- Dangos angerdd ac ymrwymiad i newidiadau gan fudiad i ddatblygu sofraniaeth ac agroecoleg bwyd

- Gallu i yrru/teithio oriau afreolaidd

Mae'r rôl yn gofyn am y gallu i wneud cyflwyniadau, cymryd rhan mewn cyfarfodydd a chyfathrebu gydag aelodau (yn llafar ac ysgrifenedig) yn Gymraeg a Saesneg.

**Sgiliau Technegol**

Yn ogystal, dylai'r ymgeisydd llwyddiannus allu arddangos profiad ar y platfformau canlynol, neu allu ein hargyhoeddi y byddant, gyda'r hyfforddiant priodol yn medru bod yn hyderus a hyfedr i

wneud hynny.

- Cynllunio a gyrru cylchlythyrau ar blatfformau megis Mailchimp
- Creu cynnwys sy'n ymgysylltu ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter ac Instagram
- Hyder wrth ddefnyddio excel a bas data

**Sut i wneud cais**

Dylech yrru 3 tudalen (mwyafrif) o ymateb ysgrifenedig un ai yn Gymraeg neu Saesneg, neu fe allwch yrru fideo/awdio (dim mwy na ) 5 munud yn ddwyieithog.

- Pa brofiadau gredwch chi sy'n eich cymhwyso ar gyfer y rôl hon, a pha sgiliau fyddech yn dod gyda chi i'r gwaith hwn?
- Pa ran o'r rôl hon y meddyliwch fyddai fwyaf heriol i chi?
- Beth yn eich tyb chi sy'n gwahanu LWA oddi wrth sefydliadau aelodaeth eraill ym maes bwyd a ffermio?
- Faint o aelodau rydych chi'n meddwl sydd gan yr LWA yng Nghymru a phwy ydyn nhw?
- Sut fyddech chi'n mynd ati i ehangu cyrhaeddiad aelodaeth LWA yng Nghymru i gynnwys yr holl sectorau a rhanbarthau?

Hefyd, dylech atodi CV fer (dim mwy na 2 dudalen), ac fel uchod, gellir ei gyflwyno un ai ar bapur neu fel ffeil awdio neu fideo, yn ogystal â manylion cyswllt dau berson y gallwn gysylltu atynt ar gyfer geirda.

Anfonwch eich cais at: admin@landworkersalliance.org.uk gyda'r pennawd *'Wales Recruitment and Outreach Coordinator'* (Cydgysylltydd Recriwtio ac Ymgysylltu Cymru) fel pennawd testun.

Rydym yn anelu i gysylltu gyda phob ymgeisydd yn unigol, ond gan mai tîm bychan yn gweithio rhan amser ydyn ni, efallai na fydd hyn yn ymarferol bosib. Os nad ydych yn clywed gennym erbyn 27 Awst yna'n anffodus dylech gymryd na fyddwch wedi cael eich dewis ar gyfer cyfweliad y tro hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r rôl cyn cyflwyno eich cais, cysylltwch â Charlotte Steel (Cydlynydd AD)- charlotte.steel@landworkersalliance.org.uk. Neu cymru@landworkersalliance.org.uk Dylech e-bostio Charlotte ymhell cyn y dyddiad cau.